No.

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2022

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley (Is-Gadeirydd); R. Alexander, P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol) a Cynghorwyr R.M. Birch a B.T. Gray.

800 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

801 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorwyr M. Cuddy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned) ac A.R. Robertson (Cyngor Bro Morgannwg).

802 COFNODION –

PENDERFYNWYD - Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

803 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

804 CAIS AM GANIATÂD (SM/PGCD) –

Roedd Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 yn caniatáu i'r Aelodau wneud cais i'r Pwyllgor Safonau i siarad am, ac os yw'n briodol, i bleidleisio ar faterion na fyddent fel arall yn gallu siarad amdanynt neu bleidleisio arnynt neu aros yn yr ystafell wrth iddynt gael eu trafod oherwydd buddiannau rhagfarnol. Dywedodd y Swyddog Monitro na dderbyniwyd unrhyw geisiadau cyn y cyfarfod a bod yr adroddiad wedi'i roi ar yr agenda i ganiatáu i'w ystyried pe bai unrhyw geisiadau'n cael eu derbyn ar ôl i'r agenda gael ei hanfon.

PENDERFYNWYD - Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw geisiadau

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

805 CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU: CHWEFROR 2022 (SM/PGCD) –

Dywedodd yr adroddiad wrth yr Aelodau y byddai'r Gynhadledd Safonau yn cael ei chynnal ar 9 Chwefror 2022.

Dywedodd y Swyddog Monitro, wrth gyflwyno'r adroddiad, y byddai'r gynhadledd yn cael ei chynnal ar sail rithwir. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd fod nifer o Aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi cadarnhau eu bod ar gael a gofynnwyd i fanylion cyswllt yr Aelodau gael eu hanfon at y trefnydd er mwyn gallu e-bostio'r gwaith papur a'r gwahoddiad rhithwir angenrheidiol at yr Aelodau mewn pryd ar gyfer y gynhadledd.

PENDERFYNWYD – Nodi y cynhelir y Gynhadledd Safonau ar 9 Chwefror, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

806 CYFARFODYDD SWYDDOG MONITRO GYDA CHLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SM/PGCD) -

Un o rolau'r Pwyllgor Safonau oedd hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr Eglwys a Rhiant-Lywodraethwyr y Cyngor.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses hon, cynhaliodd y Swyddog Monitro gyfarfodydd gyda Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned i ddarparu cyfleoedd i drafod materion perthnasol i'r ddwy ochr, i roi sylw i egwyddorion safonau mewn bywyd cyhoeddus ac i ddarparu cyfleoedd rhwydweithio.

Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at baragraff 2.2 yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am faterion a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf gyda Chlercod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 a oedd wedi cynnwys, er enghraifft, eitemau'n ymwneud â rhannu arfer da, y fenter "Dod yn Gynghorydd", Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru, Cynllun Gweithredu cyfredol Cyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a sylwadau generig a wnaed gan Aelodau Annibynnol Pwyllgor Safonau Cynghorau Tref a Chymuned.

Roedd trafodaethau wedi eu cynnal hefyd ynghylch Adroddiad Archwilio Cymru ar Fudd y Cyhoedd yn ymwneud â Chyngor Cymuned Sili a Larnog gyda'r Swyddog Monitro yn hysbysu'r Pwyllgor Safonau bod cyfarfod rhwng Cadeirydd, Is-

gadeirydd a Chlerc Cyngor Cymuned Sili a Larnog, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun, 31 Ionawr, 2022.

PENDERFYNWYD – Nodi'r adroddiad a diweddariad llafar y Swyddog Monitro ynghylch cyfarfod y Clercod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2021.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad, y diweddariad llafar a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro a thrafodaethau yn y cyfarfod.

807 RHAGLEN DDRAFFT SEFYDLU A DATBLYGU AELODAU 2022 (SM/PGCD) –

Amlinellodd yr adroddiad bwysigrwydd Datblygu Aelodau'n barhaus a chyflwynodd Ddigwyddiad Sefydlu arfaethedig ac Amserlen y Rhaglen Ddatblygu ddilynol (Atodiad A) i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Roedd Rhaglen Sefydlu a Datblygu gynhwysfawr ar gyfer Aelodau wedi'i chynnal yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2017 a oedd wedi llywio'r strwythur ar gyfer rhaglen arfaethedig 2022. Roedd y rhaglen arfaethedig, yn ôl ei natur a'i hamserlen, yn cynnwys rhai dyddiadau/amseroedd a chynnwys drafft a oedd yn ddangosol ac a allai newid.

Roedd y Rhaglen arfaethedig hefyd wedi'i hadrodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2021 gyda'r argymhellion o'r cyfarfodydd hynny'n cael eu cymeradwyo i ganiatáu i'r gwaith fynd rhagddo dros gyfnod yr haf. Nodwyd y byddai Aelodau Cyfetholedig hefyd yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Sefydlu.

Holodd Mrs Tinsley am y broses werthuso a fyddai'n digwydd yn dilyn yr hyfforddiant ac awgrymodd y dylid gofyn i'r rhai a oedd yn bresennol gadarnhau a oeddent yn deall cynnwys yr hyfforddiant. Dywedodd y Swyddog Monitro fod ffurflenni gwerthuso adborth yn rhan o'r broses a byddai'r rhain yn cael eu dadansoddi i helpu i ddarparu unrhyw hyfforddiant pellach y gallai fod ei angen Yn dilyn sylw ynghylch a oedd yr hyfforddiant yn orfodol, nodwyd bod y Cyngor wedi penderfynu bod rhywfaint o hyfforddiant wedi'i ystyried yn hyfforddiant gorfodol ac wedi ei amlygu yn y Rhaglen yn Atodiad A i'r adroddiad.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – Nodi'r Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau ddrafft, sydd ynghlwn yn Atodiad A i'r adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

808 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) –

Amlinellodd yr adroddiad y byddai'r Swyddog Monitro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod dan Ran II o'r agenda mewn perthynas â gohebiaeth ddiweddar a materion sy'n codi yn unol â gweithdrefnau'r Ombwdsmon a oedd yn gyfrinachol eu natur.

Roedd yr eitem yn eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn i'r Swyddog Monitro allu arfarnu'r Aelodau fel y bo'n briodol.

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi diweddariad llafar y Swyddog Monitro ynghylch penderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 26 Ionawr, 2022.

(2) Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, gan ystyried y byddai diweddariad am yr ohebiaeth a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi o dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried o dan Ran II yr agenda.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

(1&2) Hysbysu Aelodau'r Pwyllgor.

809 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

810 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Fel yr amlinellwyd yn Rhan I o'r agenda, cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau bod eitem sefydlog yn ymddangos ar agenda'r Pwyllgor er mwyn i'r Swyddog Monitro allu dweud wrth Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar unrhyw faterion sy'n codi, gyda'r eitemau'n aros yn gyfrinachol eu natur yn unol â gweithdrefn yr Ombwdsmon.

Felly, rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar ohebiaeth gyfrinachol ddiweddar gyda'r Ombwdsmon. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r wybodaeth a roddwyd yn y cyfarfod,

PENDERFYNWYD – BOD yr wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn cael nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.